

GORCHYMYN SIR BENFRO (YR A478 ARBERTH I BENBLEWIN)

(TERFYN CYFLYMDER 40MYA) 202*

Rhoddir **HYSBYSIAD** trwy hyn fod Cyngor Sir Penfro yn cynnig gwneud Gorchymyn o dan Adran 84 ac Adran 85 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf"). Effaith y Gorchymyn fydd cyflwyno terfyn cyflymder o 40mya rhwng Arberth a Phenblewin fel y nodir yn yr Atodlen i'r gorchymyn hwn.

Bydd 'Gorchymyn Sir Benfro (A478 Arberth i Benblewin) (Terfyn Cyflymder 50mya) 2016' yn cael ei ddirymu, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darnau o ffordd y cyfeirir atynt yn yr atodlen i'r gorchymyn hwn.

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn drafft a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn ar-lein yn <https://www.sir-benfro.gov.uk/rheoleiddio-traffig-ffyrdd>

Os hoffech wrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, dylech anfon y rhesymau dros eich gwrthwynebiad naill ai drwy gwblhau'r ffurflen adborth ar-lein, neu, yn ysgrifenedig at y sawl sydd wedi llofnodi isod erbyn 5^{ed} diwrnod o Ionawr 2022. Dyfynnwch: A478NAR-S/L.

Dyddiedig y diwrnod 8^{af} hwn o Ragfyr 2021.

Darren Thomas
Pennaeth Seilwaith
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlfordd

Atodlen Terfyn Cyflymder 40mya

Ffordd

A478

Hyd






O bwynt 280 metr i'r de o'r gyffordd â Chylchfan Penblewin, i'r de i bwynt 515 metr i'r gogledd o'r gyffordd â chylchfan ffordd Kiln Park.



A478 Stoneyford - Proposed 40mph limit - Statutory Consultation Plan

Map produced on: 15 November 2021

Scale (A3 Print)
1:2500



Datganiad o'r Rheswm

Cynhaliwyd adolygiad o'r terfyn cyflymder ar yr A478 rhwng Arberth a Chylchfan Penblewin. Ystyriodd yr adolygiad hanes y gwrthdrawiadau, data'r arolwg cyflymder a geometreg y ffordd. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylid gostwng y terfyn cyflymder presennol i 40mya drwy bentref bach Stoneyford.

GORCHYMYN SIR BENFRO (YR A478 ARBERTH I BENBLEWIN)
(TERFYN CYFLYMDER 40MYA) 202*

Mae Cyngor Sir Penfro (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "y Cyngor"), wrth arfer ei bwerau o dan Adran 84 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") a'r holl hawliau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

- Ni chaiff unrhyw berson yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder o fwy na 40 milltir yr awr ar y rhannau o'r ffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.
- Mae 'Gorchymyn Sir Benfro (yr A478 Arberth i Benblewin) (terfyn cyflymder 50mya) 2016' drwy hyn wedi ei ddirymu, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darnau o ffyrdd y cyfeirir atynt yn yr atodlen i'r gorchymyn hwn.
- Gellir cyfeirio at y Gorchymyn hwn fel "Gorchymyn Sir Benfro (yr A478 Arberth i Benblewin) (Terfyn Cyflymder 40mya) 202*" a daw i rym ar y XX diwrnod o XX Dwy Fil a Dwy ar Hugain.

RHODDIR o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Penfro ar y XX diwrnod hwn o Ionawr Dwy Fil a Dwy ar Hugain.

At hyn, gosodwyd **SÊL GYFFREDIN**
CYNGOR SIR PENFRO
ym mhresenoldeb: -

Llofnodwr Awdurdodedig

Atodlen
Terfyn Cyflymder 40 mya

Ffordd

Hyd

A478

O bwynt 280 metr i'r de o'r gyffordd â Chylchfan Penblewin, i'r de i bwynt 515 metr i'r gogledd o'r gyffordd â chylchfan ffordd Kiln Park.